cyllid myfyrwyr cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Canllaw i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch rhan-amser yn 2010/11

SFW/FSPT/V10

Cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser

Cynnwys

Adran 1	Cyflwyniad	Tudalen 4
	• Beth yw cyllid i fyfyrwyr? • Pwy fydd yn gweinyddu fy nghyllid i fyfyrwyr? • Canllaw ar gyfer pwy yw hwn?	
Adran 2	Pa help y bydd modd i mi ei gael?	Tudalen 5
	• Prif gyllid sydd ar gael • Grantiau ar gyfer myfyrwyr y mae ganddynt oedolion neu blant dibynnol • Myfyrwyr sydd ag anabledd neu anhawster dysgu penodol • Help ychwanegol gan eich prifysgol a'ch coleg • Help arall	
Adran 3	A ydw i'n gymwys i gael help?	Tudalen 12
Adran 4	Sut fyddaf yn cael fy asesu?	Tudalen 15
Adran 5	Sut mae modd i mi i wneud cais?	Tudalen 22
Adran 6	Beth fydd yn digwydd os byddaf wedi cael benthyciad i fyfyrwyr yn y gorffennol?	Tudalen 23
Adran 7	Cwynion ac apeliadau	Tudalen 25
Adran 8	Sut i gael gwybod mwy	Tudalen 27
	• Cyhoeddiadau defnyddiol • Cysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru • Ffynonellau gwybodaeth eraill ynghylch ariannu	

1 Cyflwyniad

Beth yw cyllid i fyfyrwyr?

Os ydych yn ystyried dilyn cwrs addysg uwch, mae'n debygol eich bod yn ystyried sut y byddwch yn talu amdano hefyd. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cynnig help ariannol er mwyn i chi allu manteisio'n llawn ar eich cyfnod mewn prifysgol neu goleg, heb i chi orfod gofidio am arian.

Gall cyllid i fyfyrwyr fod yn arian neu'n wasanaethau er mwyn eich helpu i dalu eich ffioedd dysgu a chostau cwrs eraill y bydd yn rhaid i chi eu talu wrth i chi ddilyn cwrs addysg uwch. Yn ogystal, cynigir help ychwanegol i'r rhai sydd ag anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

Pwy fydd yn gweinyddu fy nghyllid i fyfyrwyr?

Beth bynnag fo'ch cenedligrwydd neu ble bynnag y byddwch yn astudio yn y DU, os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer, byddwch yn gymwys i fanteisio ar y gwasanaethau a ddarperir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol (ALlau) a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC). Mae SLC ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydweithio i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer, gallwch lawrlwytho'ch ffurflenni cais am gyllid i fyfyrwyr ar-lein trwy ddefnyddio gwefan cyllid i fyfyrwyr sef **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**, neu gallwch gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael ffurflenni cais papur. Gallwch gysylltu â chanolfan gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845 neu gysylltu â'ch awdurdod lleol. Mae modd i chi weld rhestr o fanylion cyswllt awdurdodau lleol ar y wefan.

Canllaw ar gyfer pwy yw hwn?

Mae'r dewisiadau cyllid yn y canllaw hwn yn berthnasol i chi os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer ac yn dilyn cwrs addysg uwch rhan-amser, unrhyw le yn y DU, yn ystod 2010/11.

Os byddwch yn cychwyn ar gwrs Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) rhan-amser yn 2010/11, bydd eich cwrs yn cael ei ystyried fel cwrs rhan-amser dynodedig. Felly, efallai y bydd modd i chi gael eich ystyried fel myfyriwr rhan-amser cymwys:

- os gwnaeth eich cwrs HCA gychwyn ar neu ar ôl 1 Medi 2010
- os na fydd eich cwrs yn para mwy na 4 blynedd
- os nad ydych yn athro cymwys yn barod

Os ydych yn **fyfyriwr amser llawn**, neu os gwnaethoch gychwyn ar gwrs **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) rhan-amser** cyn 2010, darllenwch y llyfryn 'Canllaw i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch – 2010/11'. (Am gopi, trowch at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ffoniwch ein llinell gyhoeddiadau ar 0800 731 9133, gan ddyfynnu cyfeirnod SFW/FSHE/V10.)

Os nad ydych yn byw yng Nghymru fel arfer, gallwch weld rhagor o wybodaeth sy'n berthnasol i'r man lle'r ydych yn byw trwy droi at un o'r gwefannau hyn.

Lloegr – **www.direct.gov.uk/studentfinance**

Gogledd Iwerddon – **www.studentfinanceni.co.uk**

Yr Alban – **www.saas.gov.uk**

Os ydych yn ddinesydd yr UE, trowch at **www.direct.gov.uk/studentfinance-EU**

Os byddwch yn cael **bwrsariaeth GIG**, neu os ydych yn bwriadu gwneud cais am un, dylech gysylltu â'ch coleg i gael manylion am y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser dan Gynllun Bwrsariaeth GIG.

Dylai myfyrwyr y **Brifysgol Agored** gysylltu â'r Brifysgol Agored yn uniongyrchol er mwyn gwneud cais am gymorth ariannol. Trowch at dudalen 22 yn Adran 5 am y manylion cyswllt.

Diben y wybodaeth yn y llyfryn hwn yw cynnig arweiniad yn unig ac fe allai newid.

Efallai na fydd y llyfryn hwn yn delio â'r holl sefyllfaoedd posibl, ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith.

2 Pa help y bydd modd i mi ei gael?

Crynodeb

Bydd yr adran hon yn nodi'r gwahanol fathau o help sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio cwrs rhan-amser cymwys.

Prif gyllid sydd ar gael

Grant Ffioedd

Beth yw diben hwn?	Bydd y Grant Ffioedd yn talu am y ffioedd a godir gan eich prifysgol neu goleg.
Faint fydd modd i mi ei gael?	Hyd at £975 gan ddibynnu ar ddwyster eich cwrs. Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref.
A fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?	Na fydd.
Unrhyw beth arall?	Os oes gennych radd eisoes ar lefel gyfatebol neu ar lefel is na'r un y byddwch yn astudio ar ei chyfer, ni fydd modd i chi wneud cais am yr help hwn fel arfer. Gallwch wneud cais am gymorth am hyd at wyth mlynedd. Mae hyn oherwydd ei bod yn gallu cymryd pedair blynedd i gwblhau rhai cyrsiau gradd amser llawn, felly fe allai gymryd wyth mlynedd i gwblhau'r cwrs rhan-amser cyfatebol. Os ydych yn byw yng Nghymru, ond yn astudio yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, efallai y bydd modd i chi gael help i dalu eich ffioedd o hyd. Bydd eich Grant Ffioedd yn debyg i'r Grant Ffioedd a roddir i fyfyrwyr rhan-amser sy'n byw ac sy'n astudio yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Bydd swm y Grant Ffioedd y bydd modd i chi ei gael yn wahanol i'r ffigurau a ddyfynnir yma. Telir y Grant Ffioedd i'ch prifysgol neu goleg yn uniongyrchol.

Dwyster eich cwrs	Uchafswm o ran y Grant Ffioedd
50% neu fwy, ond llai na 60% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£650 neu gost y ffioedd a godir gan eich coleg, pa un bynnag yw'r isaf
60% neu fwy, ond llai na 75% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£780 neu gost y ffioedd a godir gan eich coleg, pa un bynnag yw'r isaf
75% neu fwy o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£975 neu gost y ffioedd a godir gan eich coleg, pa un bynnag yw'r isaf

2 Pa help y bydd modd i mi ei gael?

Grant Cwrs

Beth yw diben hwn?	Gall y Grant Cwrs helpu i dalu am lyfrau, costau teithio a threuliau eraill.
Faint fydd modd i mi ei gael?	Hyd at £1,095 gan ddibynnu ar eich incwm. **Incwm** / **Uchafswm y Grant Cwrs** Dan £26,095 — Grant Cwrs Llawn o £1,095 £26,095 a throsodd ond llai na £28,180 — Grant Cwrs o £1,095 yn llai £1 am bob £1.995 o incwm dros £26,095 £28,180 — Grant Cwrs o £50 £28,180 a throsodd — Dim Grant Cwrs
A fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?	Na fydd.
Unrhyw beth arall?	Os oes gennych radd eisoes ar lefel gyfatebol neu ar lefel is na'r un y byddwch yn astudio ar ei chyfer, ni fydd modd i chi wneud cais am yr help hwn fel arfer. Telir y Grant Cwrs i'ch cyfrif banc fel un cyfandaliad.

Grantiau ar gyfer myfyrwyr y mae ganddynt oedolion neu blant dibynnol

Grant Oedolion Dibynnol (ADG)

Beth yw diben hwn?	Ar gyfer myfyrwyr y mae aelod o'r teulu sy'n oedolyn, ac eithrio oedolyn sy'n blentyn iddynt, yn ddibynnol arnynt yn ariannol.
Faint fydd modd i mi ei gael?	Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm ac incwm eich dibynyddion, a dwyster eich cwrs. **Dwyster eich cwrs** / **Uchafswm y Grant** 50% neu fwy, ond llai na 60% o'r cwrs amser llawn cyfatebol — £1,323 60% neu fwy, ond llai na 75% o'r cwrs amser llawn cyfatebol — £1,588 75% neu fwy o'r cwrs amser llawn cyfatebol — £1,985
A fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?	Na fydd.
Unrhyw beth arall?	Telir y Grant i'ch cyfrif banc ar ffurf tri rhandaliad.

2 Pa help y bydd modd i mi ei gael?

Grant Gofal Plant (CCG)

Beth yw diben hwn?

Ar gyfer myfyrwyr y mae ganddynt blant dibynnol dan 15 oed (17 oed os cofrestrwyd eich plentyn fel plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig) ac mae'r plant hynny yn cael gofal plant cofrestredig neu gymeradwyedig (gweler adran 'Unrhyw beth arall' isod).

Faint fydd modd i mi ei gael?

Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm ac incwm eich dibynyddion, eich costau gofal plant go iawn a dwyster eich cwrs. Bydd CCG yn talu hyd at 85% o gyfanswm eich costau gofal plant.

Dwyster eich cwrs	Uchafswm y Grant ar gyfer rhieni y mae ganddynt un plentyn
50% neu fwy, ond llai na 60% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£81
60% neu fwy, ond llai na 75% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£97
75% neu fwy o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£121

Dwyster eich cwrs	Uchafswm y Grant ar gyfer rhieni y mae ganddynt ddau o blant
50% neu fwy, ond llai na 60% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£137
60% neu fwy, ond llai na 75% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£165
75% neu fwy o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£206

A fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?

Na fydd.

Unrhyw beth arall?

Gofal Plant Cofrestredig – mae hwn yn golygu bod yn rhaid i'r darparwr fod wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Dylent ddangos eu tystysgrif gofrestru i chi i ddangos eu bod yn gofrestredig. Mae gofal plant cofrestredig yn cynnwys mamaethod, grwpiau chwarae, meithrinfeydd, canolfannau plant a chynlluniau chwarae gwyliau cofrestredig.

Gofal Plant Cymeradwyedig – mae hyn yn golygu y dylai'r darparwr fod wedi cofrestru dan Gynllun Cymeradwyo Gofal Plant Cymru, a byddant yn darparu gofal ar gyfer un plentyn neu fwy rhwng wyth a phedair ar ddeg oed (16 oed os yw'r plentyn yn anabl).

Mae gan bob plentyn tair a phedair oed yr hawl i fanteisio ar le mewn darpariaeth feithrin am ddim, felly ni ellir talu CCG am y cyfnod y bydd eich plentyn yn ei dreulio yn y feithrinfa. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am leoedd meithrin am ddim gan eich awdurdod lleol neu gan Childcare Link trwy ffonio 0800 096 0296.

Fel arfer, byddwn yn talu'r Grant i'ch cyfrif banc ar ffurf tri rhandaliad.

Mae modd i chi gael gwybodaeth bellach am y Grant Gofal Plant gan eich awdurdod lleol neu gan linell gymorth Cyllid Myfyrwyr Cymru trwy ffonio 0845 602 8845.

2 Pa help y bydd modd i mi ei gael?

Lwfans Dysgu i Rieni (PLA)

Beth yw diben hwn?	Ar gyfer myfyrwyr y mae ganddynt blant dibynnol, er mwyn helpu i dalu costau sy'n gysylltiedig â chwrs.
Faint fydd modd i mi ei gael?	Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm ac incwm eich dibynyddion, a dwyster eich cwrs.
A fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?	Na fydd.
Unrhyw beth arall?	Telir y Grant i'ch cyfrif banc ar ffurf tri rhandaliad.

Dwyster eich cwrs	Uchafswm y Grant
50% neu fwy, ond llai na 60% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£754
60% neu fwy, ond llai na 75% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£904
75% neu fwy o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£1,131

Sut y caiff 'dwyster' eich cwrs ei gyfrifo

Bydd eich prifysgol neu goleg yn cyfrifo faint o amser y bydd yn ei gymryd i chi gwblhau'ch cwrs, mewn perthynas â'r cwrs amser llawn cyfatebol. Caiff hyn ei gyfrifo trwy rannu nifer y blynyddoedd amser llawn y mae'n ei gymryd i gwblhau'r cwrs, gyda nifer y blynyddoedd rhan-amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r cwrs, a'i luosi gyda 100, e.e. mae Myfyriwr A yn dilyn cwrs gradd rhan-amser sy'n para chwe blynedd, byddai'r cwrs amser llawn cyfatebol yn para tair blynedd, felly 3 wedi'i rannu gyda 6 = 0.5, wedi'i luosi gyda 100 = 50. Felly, 50% fydd lefel dwyster astudio y myfyriwr.

Er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth, ni cheir treulio mwy na dwywaith yr amser y byddai rhywun yn ei dreulio i gwblhau cwrs amser llawn cyfatebol, i gwblhau'r cwrs rhan-amser. Fodd bynnag, mae modd amrywio dwyster yr astudio a'i ostwng i dan 50% yn ystod blwyddyn academaidd, ar yr amod bod hyd cyffredinol y cwrs yn parhau i fod yn 50% neu fwy. Os bydd dwyster y lefel astudio yn gostwng dan 50% mewn unrhyw flwyddyn academaidd, dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol y gallent fod yn anghymwys i fanteisio ar unrhyw grantiau dibynyddion rhan-amser ar gyfer y flwyddyn honno.

2 Pa help y bydd modd i mi ei gael?

Myfyrwyr sydd ag anabledd neu anhawster dysgu penodol

Os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol ac yn astudio ar gyfradd sy'n cyfateb ag o leiaf 50% o'r cwrs amser llawn cyfatebol, efallai y byddwch yn gallu cael Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA).

Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs)

<table>
<tr><td>Beth yw diben hwn?</td><td>Gall DSAs helpu i dalu'r costau ychwanegol y byddwch yn eu hwynebu efallai o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd, eich cyflwr iechyd meddwl neu'ch anhawster dysgu penodol.</td></tr>
<tr><td>Faint fydd modd i mi ei gael?</td><td>Ni fydd y swm y bydd modd i chi ei gael yn dibynnu ar eich incwm chi neu incwm eich teulu. Mae'r tabl isod yn nodi'r help sydd ar gael a'r uchafsymiau ar gyfer eleni.<table><tr><td>Lwfans offer arbenigol</td><td>Hyd at £5,166 ar gyfer y cwrs cyfan</td></tr><tr><td>Lwfans cynorthwy-ydd anfeddygol</td><td>Hyd at £15,390 y flwyddyn</td></tr><tr><td>Lwfans cyffredinol</td><td>Hyd at £1,293 y flwyddyn</td></tr></table></td></tr>
<tr><td>A fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?</td><td>Na fydd.</td></tr>
<tr><td>Unrhyw beth arall?</td><td>Os ydych yn dymuno gwneud cais am DSAs, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau yn eich cais, gan ateb y cwestiynau priodol. Yna, bydd angen i chi lenwi cais am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl, yn ogystal â'r brif ffurflen gais. Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon o'n gwefan a'i dychwelyd gyda'r brif ffurflen gais.

Am wybodaeth fanylach, mae modd i chi gael canllaw o'r enw 'Pontio'r Bwlch: Canllaw i'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs) mewn addysg uwch' trwy droi at ein gwefan sef www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk.

Os bydd angen unrhyw help neu gyngor pellach arnoch, gallwch siarad gyda chynghorydd yng nghanolfan gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru trwy ffonio 0845 602 8845 neu gysylltu â'ch ALl. Yn ogystal, gallwch siarad gyda'r cynghorydd anabledd yn y brifysgol neu'r coleg a ddewiswyd gennych.</td></tr>
</table>

2 Pa help y bydd modd i mi ei gael?

Help ychwanegol sydd ar gael gan eich prifysgol neu goleg

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am yr help ychwanegol y gallai colegau fod yn gallu ei gynnig.

Y Gronfa Ariannol wrth Gefn (FCF)

Beth yw diben hon?	Mae hon ar gael trwy'ch prifysgol neu goleg ac mae'n gallu cynnig cymorth ychwanegol os bydd angen help ariannol ychwanegol arnoch i ddechrau dilyn cwrs addysg uwch neu i barhau i ddilyn cwrs addysg uwch.
Faint fydd modd i mi ei gael?	Bydd eich prifysgol neu goleg yn penderfynu a fydd modd i chi gael yr help hwn ac os felly, faint y bydd modd i chi ei gael. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau chi.
A fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?	Fel arfer, rhoddir taliadau ar ffurf grantiau, na fydd angen eu had-dalu, er y gellir eu rhoi fel benthyciadau am y tymor byr weithiau, y byddai'n rhaid eu had-dalu.
Unrhyw beth arall?	Rhaid i'ch cyfradd astudio gyfateb ag o leiaf 50% o'r cwrs amser llawn cyfatebol (neu 25% os oes gennych anabledd sy'n eich atal rhag astudio ar gyfradd uwch) er mwyn bod yn gymwys. Fel arfer, byddwch yn ymgeisio trwy adran gwasanaethau myfyrwyr eich prifysgol neu goleg. Byddant yn dweud wrthych pa wybodaeth y bydd angen i chi ei darparu a sut y byddant yn asesu'ch cais. Mae'r Gronfa Ariannol wrth Gefn ar gael os ydych yn astudio yng Nghymru yn unig, ond efallai y bydd modd i chi fanteisio ar help tebyg gan brifysgolion a cholegau yn yr Alban, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Gall eich prifysgol neu goleg ddewis cynnig help ychwanegol gyda'r ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Y myfyrwyr hynny nad yw'r cymorth ffioedd arferol y maent yn ei gael, yn talu cost lawn eu ffioedd dysgu, ac y byddent yn cael eu hatal rhag ymgeisio am le ar gwrs neu aros ar y cwrs fel arall. Bydd eich prifysgol neu goleg yn penderfynu a fydd modd i chi gael yr help hwn ac os felly, faint y bydd modd i chi ei gael. Holwch yr adran gwasanaethau myfyrwyr yn eich prifysgol neu'ch coleg am gyngor pellach.

2 Pa help y bydd modd i mi ei gael?

Help arall

Budd-daliadau
Mae modd i fyfyrwyr rhan-amser hawlio budd-daliadau prawf modd o hyd (fel Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Tai, Lwfans Tai Lleol a Budd-dal Treth Gyngor) os ydych yn ddi-waith. Fodd bynnag, er mwyn gallu hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, rhaid eich bod ar gael i weithio ac wrthi'n chwilio am waith. Os ydych yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, rhaid eich bod yn fodlon mynychu cyfweliad. Yn ogystal, dylech fod yn gallu ad-drefnu'ch oriau astudio er mwyn gallu cyflawni swydd, neu fod yn barod i roi'r gorau i'ch cwrs os na fydd modd i chi wneud hyn.

Os ydych yn rhiant sengl neu os oes gennych anabledd neu salwch sy'n golygu na fu modd i chi weithio am 28 wythnos o leiaf, ac os ydych ar incwm isel, efallai y bydd modd i chi hawlio Cymhorthdal Incwm yn hytrach na'r Lwfans Ceisio Gwaith gan nad oes yn rhaid i chi fod ar gael i weithio er mwyn hawlio'r Cymhorthdal Incwm. Dim ond pobl dros 18 oed sy'n gallu hawlio Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i seilio ar incwm. Dylai fod modd i chi gael rhagor o wybodaeth am y budd-daliadau hyn gan eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol.

Wrth asesu unrhyw fudd-dal prawf modd, ni fydd Canolfan Byd Gwaith ac adran fudd-daliadau eich awdurdod lleol yn trin y Grant Ffioedd neu'r Grant Cwrs fel incwm. Yn ogystal, ni fydd unrhyw daliadau yr ydych yn eu cael gan y Gronfa Ariannol wrth Gefn yn cael eu cyfrif fel incwm, ar yr amod nad eu diben yw'ch helpu i dalu costau byw o ddydd i ddydd.

Cofiwch mai gwybodaeth gyffredinol a nodir yma. Os ydych yn credu eich bod yn gymwys i gael unrhyw rai o'r budd-daliadau y cyfeiriwyd atynt, dylech gysylltu â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol, adran fudd-daliadau eich awdurdod lleol neu'ch gwasanaeth cynghori myfyrwyr lleol.

Arian ôl-raddedig
Nid yw'r system cymorth i fyfyrwyr yn darparu'r un cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig ag y mae'n ei ddarparu i'r rhai ar gyrsiau israddedig, ac eithrio Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Tra bod ysgoloriaethau ymchwil a grantiau ymchwil ar gael ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig gan y cynghorau ymchwil, a chan rai elusennau eraill, ni cheir benthyciadau a gymorthdelir na grantiau ar gyfer ôl-raddedigion.

Efallai y bydd modd i fyfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser (gan gynnwys myfyrwyr dysgu o bell) y mae ganddynt anableddau, cyflyrau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu penodol, gael Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs). Am wybodaeth fanylach, mae modd i chi gael canllaw o'r enw 'Pontio'r Bwlch: Canllaw i'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs) mewn addysg uwch' trwy droi at ein gwefan.

Os ydych yn fyfyriwr ôl-raddedig, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am help gan y Gronfa Ariannol wrth Gefn trwy eich prifysgol neu goleg.

Cynghorau Ymchwil
Mae'r holl gynghorau ymchwil yn ystyried cynnig cyllid i ôl-raddedigion unigol. Bydd angen i chi gysylltu â'r cyngor ymchwil perthnasol i gael gwybod mwy. Mae'n rhaid cystadlu am y cyllid a gynigir gan gynghorau ymchwil, ac ni fydd sicrhau lle ar raglen ôl-radd yn golygu eich bod yn gymwys i gael dyfarniad.

- Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) – **www.ahrc.ac.uk**
- Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (EPSRC) – **www.epsrc.ac.uk**
- Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (ESRC) – **www.esrc.ac.uk**
- Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC) – **www.mrc.ac.uk**
- Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) – **www.nerc.ac.uk**
- Cyngor Cyfleusterau Technoleg a Gwyddoniaeth (STFC) – **www.scitech.ac.uk**

Elusennau ac ymddiriedolaethau addysgol
Mae elusennau ac ymddiriedolaethau addysgol yn rhoi dyfarniadau unigol i fyfyrwyr hefyd. Gallwch weld rhestrau safonol o'r rhain yn y rhan fwyaf o lyfrgelloedd cyhoeddus.

3 A ydw i'n gymwys i gael help?

Crynodeb

Mae'r adran hon yn cynnwys ychydig o wybodaeth am y rheolau sy'n pennu a ydych yn gymwys i gael unrhyw help neu beidio.

Bydd yn rhaid i chi fodloni tair prif amod er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid i fyfyrwyr.

1 Lle'r ydych yn byw (y 'gofyniadau preswylio')
2 Cymhwystra personol
3 Math y cwrs yr ydych yn ei ddilyn ('gofynion y cwrs')

1. Lle'r ydych yn byw

Fel arfer, bydd yn rhaid i chi fodloni tri gofyniad sy'n ymwneud â lle'r ydych yn byw a'ch statws mewnfudo ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs (gweler Nodyn 1). Ar y dyddiad hwnnw, rhaid eich bod:

- yn 'preswylio fel arfer' yng Nghymru;
- wedi bod yn 'preswylio fel arfer' (gweler Nodyn 2 isod) yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw am y tair blynedd yn union cyn y dyddiad hwn (heb fod hyn yn bennaf er mwyn cael addysg amser llawn); ac
- wedi sicrhau 'statws preswylydd sefydlog' – sy'n golygu bod yn rhaid eich bod wedi setlo yn y DU o fewn ystyr Deddf Mewnfudo 1971.

Nodyn 1
Bydd blynyddoedd academaidd yn cychwyn ar y dyddiadau canlynol.

- 1 Medi ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn ystod tymor yr hydref
- 1 Ionawr ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn ystod tymor y gaeaf
- 1 Ebrill ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn ystod tymor y gwanwyn
- 1 Gorffennaf ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn ystod tymor yr haf

Nodyn 2
Mae 'preswylio fel arfer' yn golygu lle'r ydych yn byw fel arfer ar gyfer mwyafrif yr amser yn ystod y tair blynedd cyn i'ch cwrs gychwyn.

Os oeddech i ffwrdd o'r wlad hon oherwydd eich bod chi, neu aelod penodol o'r teulu, yn cael eich/eu cyflogi mewn gwlad dramor dros dro, efallai y byddwch yn cael eich trin fel pe na bai'ch cyfnod preswylio yn y DU wedi cael ei amharu.

Os oeddech i ffwrdd o'r wlad hon yn ystod y tair blynedd diwethaf, neu rywfaint o'r amser yn ystod y tair blynedd diwethaf, oherwydd eich bod chi neu aelod penodol o'r teulu yn gwasanaethu mewn gwlad dramor fel aelod o'r lluoedd arfog parhaol (y Fyddin Brydeinig, y Llynges Frenhinol neu'r Llu Awyr Brenhinol), bydd hyn yn cael ei drin fel absenoldeb dros dro. Ni fydd hyn yn eich atal rhag bod yn gymwys i gael cymorth i dalu eich ffioedd neu gostau'ch cwrs.

Os ydych yn byw yma yn bennaf er mwyn cael addysg amser llawn, a byddech wedi byw y tu allan i'r DU fel arfer os nad oeddech yn astudio, ni fyddwch fel arfer yn cael eich trin fel rhywun sydd wedi bod yn preswylio yn y DU fel arfer.

Os na fyddwch yn bodloni'r tri gofyniad sylfaenol ac os yw'ch cwrs yn gwrs cymwys, efallai y bydd modd i chi wneud cais am gymorth o hyd. Er enghraifft, fe allech fod yn gymwys dan yr amgylchiadau canlynol:

- os ydych chi neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, eich rhiant neu'ch llys-riant yn cael eu cydnabod fel ffoadur gan Lywodraeth Prydain ac rydych wedi bod yn byw yn y wlad hon ers y dyfarnwyd y statws hwn. Os bydd y statws hwn yn dod i ben yn ystod eich cwrs ac os na fydd yn cael ei adnewyddu, efallai y bydd angen atal eich cymorth ariannol o ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fo'r caniatâd yn dod i ben. Holwch Cyllid Myfyrwyr Cymru neu'ch awdurdod lleol am ragor o wybodaeth.
- os yw'r Swyddfa Gartref wedi dyfarnu amddiffyniad dyngarol, caniatâd dewisol neu ganiatâd eithriadol i chi, eich gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, eich rhiant neu'ch llys-riant i gael mynediad i'r DU neu i aros yn y DU (caniatâd mynediad ac aros), o ganlyniad i gais aflwyddiannus am loches, rhaid i chi fodloni'r gofyniad o fod yn preswylio fel arfer am gyfnod o dair blynedd yn y wlad hon. Fodd bynnag, ni fydd y gofyniad ynghylch statws preswylydd sefydlog yn berthnasol i chi. Os bydd y caniatâd hwn i aros yn dod i ben yn ystod eich cwrs ac os na fydd yn cael ei adnewyddu, efallai y bydd angen atal eich cymorth ariannol o ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fo'r caniatâd yn dod i ben. Holwch Cyllid Myfyrwyr Cymru neu'ch awdurdod lleol am ragor o wybodaeth.

3 A ydw i'n gymwys i gael help?

Os ydych yn hawlio fel gŵr neu wraig neu bartner sifil ceisiwr lloches neu unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt, rhaid eich bod wedi bod yn y sefyllfa honno ar yr adeg y gwnaeth eich partner gais i'r Swyddfa Gartref am loches. Os ydych yn hawlio fel plentyn neu lysblentyn ceisiwr lloches neu unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt, rhaid eich bod wedi bod yn y sefyllfa honno ar yr adeg y gwnaeth eich rhiant eu cais i'r Swyddfa Gartref am loches. Yn ogystal, mae'n rhaid eich bod wedi bod dan 18 oed ar y pryd.

Disgrifir categorïau eraill o fyfyrwyr cymwys isod. Yn ogystal, rhaid i fyfyrwyr fodloni gofynion penodol, a allai amrywio. Mae modd gweld manylion llawn am y gofynion hyn trwy droi at ein gwefan sef **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

- os ydych chi, eich gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, eich rhiant neu'ch llys-riant, eich plentyn, eich mab yng nghyfraith neu'ch merch yng nghyfraith neu bartner sifil eich plentyn yn weithiwr mudol, yn weithiwr ffiniol neu'n unigolyn hunangyflogedig o'r AEE neu'r Swistir, ac os ydych wedi bod yn byw yn yr AEE neu'r Swistir yn ystod y tair blynedd cyn dechrau'ch cwrs.
- os ydych wedi sicrhau statws preswylydd sefydlog yn y DU ac os nad ydych yn bodloni'r gofyniad preswylio fel arfer am gyfnod o dair blynedd yn y wlad hon, ond rydych chi neu aelod perthnasol o'r teulu wedi manteisio ar eich hawl i symud yn rhydd o fewn yr AEE a'r Swistir cyn dychwelyd i'r DU.
- os ydych yn ddinesydd yr UE sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd* trwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs.
- os ydych yn blentyn dinesydd y Swistir ac rydych wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr AEE neu'r Swistir am y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs.
- Os yw'ch rhiant yn ddinesydd o Dwrci sy'n preswylio fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd*, ac sy'n gweithio yn y DU neu sydd wedi gweithio yn y DU; ac os ydych wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr AEE, y Swistir neu Dwrci yn ystod y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs.

(* Mae'r DU a'r Ynysoedd yn cynnwys Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.)

Nid yw hon yn rhestr lawn, a chynghorir myfyrwyr i gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru neu eu hawdurdod lleol, neu i droi at y wefan sef **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**.

Os nad ydych yn perthyn i'r categorïau a nodir uchod, ond rydych yn ddinesydd yr UE (neu'n aelod o deulu dinesydd yr UE), efallai y bydd modd i chi gael help i dalu eich ffioedd dysgu mewn ffordd debyg i fyfyrwyr o'r DU. Bydd modd i chi gael ffurflen gais gan y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yr UE.

Student Finance Services European Team
PO Box 89
Darlington
DL1 9AZ

Llinell gymorth: (+44) (0) 141 243 3570

E-bost: EU_Team@slc.co.uk

3 A ydw i'n gymwys i gael help?

2. Cymhwystra personol

Rheolau personol

- Gallwch fod yn fyfyriwr newydd neu'n fyfyriwr sy'n parhau i ddilyn cwrs.
- Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran oedran y sawl sy'n gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr rhan-amser.

Ni fyddwch yn gymwys i gael y Grant Ffioedd, y Grant Cwrs na'r Grant Dibynyddion:

- Os ydych yn meddu ar radd eisoes y mae ar yr un lefel neu ar lefel uwch na'r cymhwyster yr ydych yn dymuno'i astudio (ni fydd hyn yn effeithio ar eich cymhwystra i gael DSAs);
- Ar gyfer mwy nag un cwrs rhan-amser ar yr un pryd;
- Os gwnaethoch gychwyn ar gwrs Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon rhan-amser cyn 2010.

Rheolau ariannol

- Os ydych yn cael budd-daliadau penodol, bydd modd i chi fod yn gymwys i gael y Grant Ffioedd a'r Grant Cwrs yn llawn.

  Rhestrir y rhain yn Adran 4 – 'Sut fyddaf yn cael fy asesu?'. Fel arall, bydd swm y cymorth y bydd modd i chi ei gael (gan gynnwys unrhyw Grantiau Dibynyddion) yn dibynnu ar eich incwm chi a/neu incwm eich dibynyddion.

- Ni fydd DSAs yn dibynnu ar incwm eich cartref.

3. Gofynion cwrs

Rhaid i chi a'ch cwrs fod yn gymwys. Yn gyffredinol, mae cyrsiau yn gymwys i gymorth ariannol i dalu ffioedd a benthyciadau dan yr amgylchiadau canlynol:

Rhaid i'ch cwrs fod yn gwrs addysg uwch mewn coleg yn y DU a ariennir gan arian cyhoeddus, neu'n gwrs dynodedig penodol mewn coleg a ariennir gan arian preifat.

Rhaid i'r cwrs arwain at:

- radd (er enghraifft, BSc neu BA);
- Tystysgrif neu Ddiploma Addysg Uwch;
- Tystysgrif Genedlaethol Uwch (TGU); neu
- Ddiploma Cenedlaethol Uwch

Ni fydd cyrsiau a gynlluniwyd er mwyn paratoi myfyrwyr am gwrs addysg uwch, a elwir yn 'gyrsiau mynediad' fel arfer, yn gyrsiau cymwys at ddibenion sicrhau cymorth.

Rhaid i chi fod yn fyfyriwr rhan-amser sy'n astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% neu fwy o gwrs amser llawn. (Felly, ni ddylai gymryd mwy na dwywaith yr amser i chi gwblhau'r cwrs ag y byddai'n ei gymryd i chi gwblhau'r cwrs amser llawn cyfatebol). Fodd bynnag, bydd modd amrywio dwyster yr astudio dan 50% yn ystod blwyddyn academaidd, ar yr amod bod hyd cyffredinol eich cwrs yn parhau i fod yn 50%. Os bydd dwyster eich lefel astudio yn syrthio dan 50% mewn unrhyw flwyddyn academaidd, efallai na fyddwch yn gymwys i gael unrhyw grantiau dibynyddion ar gyfer y flwyddyn honno. Mae gan rai prifysgolion a cholegau system bwyntiau neu gredydau ar gyfer eu cyrsiau. Fel arfer, bydd cwrs sy'n werth 60 pwynt neu gredyd mewn unrhyw flwyddyn academaidd, yn cyfateb â 50% o gwrs amser llawn.

Rhaid i'ch cwrs bara blwyddyn o leiaf.

Gallwch wneud cais am gymorth am hyd at wyth mlynedd. Mae hyn oherwydd ei bod yn gallu cymryd pedair blynedd i gwblhau rhai cyrsiau gradd amser llawn, felly fe allai gymryd wyth mlynedd i gwblhau'r cwrs rhan-amser cyfatebol.

4 Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Crynodeb

Mae'r adran hon yn nodi sut y bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru neu'ch awdurdod lleol yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei nodi er mwyn penderfynu faint o help ariannol y gallech ei gael.

Bydd swm yr help y byddwch yn ei gael i dalu costau ffioedd yn cael ei seilio ar eich incwm gros chi (incwm cyn didyniadau), a phan fo hynny'n briodol, incwm eich gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, ac mewn rhai achosion, partner o'r un rhyw â chi neu bartner o'r rhyw arall (y cyfeirir atynt fel "eich partner" yn yr adran hon).

Byddwch yn gallu cael y Grant Cwrs a'r Grant Ffioedd llawn os ydych yn cael un o'r budd-daliadau canlynol neu fwy:

- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dal Tai (gan gynnwys y Lwfans Tai Lleol)
- Budd-dal Treth Gyngor
- Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i Seilio ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi'i Seilio ar Incwm
- Lwfans y Fargen Newydd

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru, neu'ch awdurdod lleol, yn dweud wrthych pa dystiolaeth y bydd angen i chi ei darparu i gefnogi'ch cais.

Yn 2010/11, os ydych yn fyfyriwr sengl (myfyriwr heb bartner neu ddibynyddion) byddwch yn gymwys i gael y grantiau ffioedd a'r grantiau cwrs llawn os yw'ch incwm yn llai na £16,865.

Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru neu'ch awdurdod lleol yn asesu'ch incwm a phan fo hynny'n briodol, incwm eich partner. Pan fo hynny'n briodol, bydd lefel yr incwm er mwyn sicrhau'r uchafswm o ran grantiau, yn codi fel y nodir isod (mae modd gweld rhagor o wybodaeth am hyn trwy droi at dudalennau 17 ac 18).

- Gymaint â £2,000 os ydych yn byw gyda phartner neu bartner sifil (gweler y tabl ar dudalen 17).
- Gymaint â £2,000 ar gyfer eich plentyn dibynnol cyntaf.
- Gymaint â £1,000 ar gyfer pob un o'ch plant dibynnol eraill.

Bydd y penderfyniad i ystyried incwm eich partner yn dibynnu ar:

- Eich oedran; ac
- A wnaethoch chi gychwyn ar eich cwrs cyn neu ar ôl 1 Medi 2005

4 Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Os gwnaethoch gychwyn yn y system addysg uwch ar neu ar ôl 1 Medi 2005, ystyrir eich incwm chi ac incwm eich partner, os ydych yn briod neu'n bartneriaid sifil neu beidio. Os gwnaethoch gychwyn ar eich cwrs cyn Medi 2005, ystyrir eich incwm chi ac incwm eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil. Os ydych yn 25 oed neu'n hŷn, bydd incwm unrhyw un o'r rhyw arall yr ydych yn byw gyda nhw fel pe baech yn bâr priod, yn cael ei ystyried. Mae'r tabl isod yn nodi'r adegau pan ystyrir incwm partner.

	Incwm yn cael ei ystyried			
	Partner priod	Partner sifil	Partner di-briod o'r rhyw arall	Partner (ac eithrio partner sifil) o'r un rhyw
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2005				
Myfyriwr newydd dan 25 oed	Bydd	Bydd	Bydd	Bydd
Myfyriwr newydd sy'n 25 oed neu'n hŷn	Bydd	Bydd	Bydd	Bydd
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs cyn 1 Medi 2005				
Myfyriwr dan 25 oed	Bydd	Bydd	Na fydd	Na fydd
Myfyriwr sy'n 25 oed neu'n hŷn	Bydd	Bydd	Bydd	Na fydd

Felly, nodir y cyfyngiad incwm ar gyfer y grantiau llawn isod.

Statws	**Dim plant**	**Un plentyn**	**Dau blentyn**	**Tri phlentyn**
Sengl	£16,864	£18,864	£19,864	£20,864
Pâr	£18,864	£20,864	£21,864	£22,864

Mae lefel yr incwm yn uwch ar gyfer teuluoedd mwy.

4 Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Ceir cyfyngiadau o ran uchafswm yr incwm ac os bydd eich incwm yn uwch na'r rhain, ni fydd modd i chi gael unrhyw gymorth ariannol. Y cyfyngiadau hyn o ran uchafswm yr incwm yw £28,180 a £2,000 ar gyfer unrhyw bartner y mae eu hincwm yn cael ei ystyried, £2,000 ar gyfer eich plentyn dibynnol cyntaf chi neu blentyn dibynnol cyntaf eich partner, a £1,000 ar gyfer unrhyw blant dibynnol pellach.

	Cyfyngiad o ran uchafswm yr incwm (cyn treth)	
Pob myfyriwr sengl	Dim plant – Un plentyn – Dau blentyn –	£28,180 £30,180 £31,180
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2005 ac y maent yn briod, y mae ganddynt bartner sifil neu y maent yn byw gyda phartner (o'r naill ryw neu'r llall) (Yn yr achos hwn, ystyrir incwm eich partner.)	Dim plant – Un plentyn – Dau blentyn –	£30,180 (incwm ar y cyd) £32,180 (incwm ar y cyd) £33,180 (incwm ar y cyd)
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs cyn 1 Medi 2005 ac y maent: • yn briod neu y mae ganddynt bartner sifil; neu'n • 25 oed neu'n hŷn ac yn byw gyda phartner o'r rhyw arall. (Yn yr achosion hyn, ystyrir incwm eich partner.)	Dim plant – Un plentyn – Dau blentyn –	£30,180 (incwm ar y cyd) £32,180 (incwm ar y cyd) £33,180 (incwm ar y cyd)
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs cyn 1 Medi 2005 ac y maent: • yn byw gyda phartner o'r un rhyw; neu • dan 25 oed ac yn byw gyda phartner o'r rhyw arall. (Yn yr achosion hyn, ni ystyrir incwm eich partner.)	Dim plant – Un plentyn – Dau blentyn –	£28,180 £30,180 £31,180

4 Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Os ydych yn fyfyriwr sengl sy'n astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% o gwrs amser llawn cyfatebol neu fwy, y trothwy incwm ar gyfer cael cymorth llawn yw £16,864. Os yw'ch incwm yn £16,865 neu'n uwch, bydd eich grant yn gostwng fel y nodir yn y tabl isod. Os byddwch yn gymwys i gael cymorth, y swm isaf y bydd modd i chi ei gael (neu y bydd modd ei dalu i goleg am eich ffioedd) fydd £50.

Myfyriwr sengl, dim plant dibynnol	
Incwm	**Hawl**
Dan £16,865	Grant Cwrs llawn o £1,095. Grant Ffioedd llawn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y Grant Ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â 50% neu fwy, ond llai na 60% o gwrs amser llawn – £650. • Cwrs sy'n cyfateb â 60% neu fwy, ond llai na 75% o gwrs amser llawn – £780. • Cwrs sy'n cyfateb â 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £975.
£16,865	Grant Cwrs llawn o £1,095 Gostyngir y Grant Ffioedd gymaint â £50. **Swm y Grant Ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â 50% neu fwy, ond llai na 60% o gwrs amser llawn – £600. • Cwrs sy'n cyfateb â 60% neu fwy, ond llai na 75% o gwrs amser llawn – £730. • Cwrs sy'n cyfateb â 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £925.
Dros £16,865 ond llai na £25,435	Grant Cwrs llawn o £1,095. Grant Ffioedd fel a ganlyn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y Grant Ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â 50% neu fwy, ond llai na 60% o gwrs amser llawn – £600 yn llai £1 am bob £15.58 o incwm (cyn treth) dros £16,865. • Cwrs sy'n cyfateb â 60% neu fwy, ond llai na 75% o gwrs amser llawn – £730 yn llai £1 am bob £12.60 o incwm (cyn treth) dros £16,865. • Cwrs sy'n cyfateb â 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £925 yn llai £1 am bob £9.79 o incwm (cyn treth) dros £16,865.
£25,435	Grant Cwrs llawn o £1,095. Grant Ffioedd o £50. (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
Dros £25,435 ond llai na £26,095	Grant Cwrs llawn o £1,095. Dim Grant Ffioedd
Dros £26,095 ond llai na £28,180	Grant Cwrs o £1,095 yn llai £1 am bob £1.995 o incwm (cyn treth) dros £26,095 (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£28,180	Grant Ffioedd o £50
£28,180 a throsodd	Dim cymorth

4 Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Bydd y trothwyon incwm ar y dudalen flaenorol yn cael eu codi gymaint â £2,000 ar gyfer eich plentyn dibynnol cyntaf, a £1,000 ar gyfer unrhyw blant dibynnol pellach. Dyma rai enghreifftiau o'r ffordd y gallai hyn weithio i chi:

Mae David yn sengl ac mae'n ennill £26,000 y flwyddyn. £1,000 yw'r ffioedd dysgu a godir ar gyfer y cwrs a ddewiswyd ganddo. Mae'n astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â dros 75% o gwrs amser llawn.

Gan fod David yn sengl, £16,864 yw lefel yr incwm er mwyn sicrhau cymorth llawn. Er bod ei incwm yn uwch na hyn, mae'n gymwys i gael rhywfaint o gymorth. Bydd yn cael Grant Cwrs o £1,095, ond ni fydd yn cael Grant Ffioedd.

Mae Nadia yn sengl ac mae ganddi ddau o blant. Mae'n ennill £19,000 y flwyddyn. £1,000 yw'r ffioedd dysgu a godir ar gyfer y cwrs a ddewiswyd ganddi. Mae'n astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â 60% o gwrs amser llawn.

Gan fod Nadia yn sengl ac mae ganddi ddau blentyn dibynnol, £19,864 yw lefel yr incwm er mwyn sicrhau cymorth llawn. Mae hi'n gymwys i gael y Grant Cwrs llawn o £1,095, a Grant Ffioedd o £780.

Bydd Nadia yn gymwys i hawlio PLA a CCG. Bydd y swm y bydd yn gymwys i'w gael yn dibynnu ar ei hincwm, incwm ei dibynyddion a'i chostau gofal plant.

4 Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Os ydych yn fyfyriwr priod sy'n astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% neu fwy o gwrs amser llawn cyfatebol, y trothwy incwm ar gyfer cael cymorth llawn yw £18,864. Os yw'ch incwm yn £18,865 neu'n fwy, bydd eich grant yn gostwng yn unol â'r hyn a nodir yn y tabl isod. Os byddwch yn gymwys i gael cymorth, y swm isaf y bydd modd i chi ei gael (neu y bydd modd ei dalu i goleg am eich ffioedd) fydd £50.

Myfyriwr priod, dim plant dibynnol	
Incwm	**Hawl**
Dan £18,865	Grant Cwrs llawn o £1,095. Grant Ffioedd llawn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y Grant Ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â 50% neu fwy, ond llai na 60% o gwrs amser llawn – £650. • Cwrs sy'n cyfateb â 60% neu fwy, ond llai na 75% o gwrs amser llawn – £780. • Cwrs sy'n cyfateb â 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £975.
£18,865	Grant Cwrs llawn o £1,095. Gostyngir y Grant Ffioedd gymaint â £50. **Swm y Grant Ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â 50% neu fwy, ond llai na 60% o gwrs amser llawn – £600. • Cwrs sy'n cyfateb â 60% neu fwy, ond llai na 75% o gwrs amser llawn – £730. • Cwrs sy'n cyfateb â 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £925.
Dros £18,865 ond llai na £27,435	Grant Cwrs llawn o £1,095. Grant Ffioedd fel a ganlyn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y Grant Ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â 50% neu fwy, ond llai na 60% o gwrs amser llawn – £600 yn llai £1 am bob £15.58 o incwm (cyn treth) dros £18,865. • Cwrs sy'n cyfateb â 60% neu fwy, ond llai na 75% o gwrs amser llawn – £730 yn llai £1 am bob £12.60 o incwm (cyn treth) dros £18,865. • Cwrs sy'n cyfateb â 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £925 yn llai £1 am bob £9.79 o incwm (cyn treth) dros £18,865.
£27,435	Grant Cwrs llawn o £1,095. Grant Ffioedd o £50. (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
Dros £27,435 ond llai na £28,095	Grant Cwrs llawn o £1,095. Dim Grant Ffioedd
Dros £28,095 ond llai na £30,180	Grant Cwrs o £1,095 yn llai £1 am bob £1.995 o incwm (cyn treth) dros £27,575 (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£30,180	Grant Ffioedd o £50
£30,180 a throsodd	Dim cymorth

4 Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Bydd y trothwyon incwm ar y dudalen flaenorol yn cael eu codi gymaint â £2,000 ar gyfer eich plentyn dibynnol cyntaf chi neu blentyn dibynnol cyntaf eich partner, a £1,000 ar gyfer unrhyw blant dibynnol pellach. Dyma rai enghreifftiau o'r ffordd y gallai hyn weithio i chi:

Mae Kevin yn briod ac yn ennill £17,500 y flwyddyn. Nid yw ei wraig yn gweithio ac nid oes ganddi unrhyw incwm. Mae Kevin yn dilyn cwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% o gwrs amser llawn, a chodir ffi o £600 ar ei gyfer.

Gan fod Kevin yn briod, £18,864 yw lefel yr incwm er mwyn sicrhau cymorth llawn. Gan fod ei incwm ef yn is na hyn ac nad oes gan ei wraig unrhyw incwm, bydd ganddo ef yr hawl i gael cymorth llawn o £600 (y ffioedd a godir gan ei goleg) a swm uchaf y Grant Cwrs sef £1,095.

Yn ogystal, fe allai Kevin fod yn gymwys i hawlio ADG o hyd at £1,323 am ei wraig.

Mae Julie yn briod ac mae ganddi dri o blant. Nid oes ganddi unrhyw incwm personol, ac mae incwm ei gŵr yn £21,700 y flwyddyn. £800 yw swm y ffioedd dysgu a godir ar gyfer ei chwrs. Mae'n astudio ei chwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 70% o gwrs amser llawn.

Gan fod Julie yn briod, ystyrir incwm ei gŵr. £22,864 yw lefel yr incwm er mwyn cael cymorth llawn (gan gynnwys y lwfansau o £2,000 ar gyfer ei gŵr, £2,000 ar gyfer eu plentyn hynaf, a £1,000 yr un ar gyfer y ddau blentyn arall). Mae incwm ei theulu yn is na hyn, felly bydd yn gymwys i gael y cymorth llawn, ac ar gyfer ei chwrs hi, mae hyn yn cyfateb â Grant Ffioedd o £780 a Grant Cwrs llawn o £1,095.

Yn ogystal, efallai y bydd Julie yn gymwys i hawlio PLA, CCG ac ADG, a bydd y swm y bydd yn ei gael yn dibynnu ar ei hincwm, incwm ei dibynyddion a'i chostau gofal plant.

5 Sut mae modd i mi wneud cais?

Crynodeb

Gallwch wneud cais am y Grant Cwrs a'r Grant Ffioedd trwy lenwi ffurflen gais PTG1. Os oes gennych oedolion neu blant dibynnol, bydd modd i chi wneud cais am Grant Oedolion Dibynnol rhan-amser a'r Lwfans Dysgu i Rieni ar ffurflen PTG1 hefyd. Mae modd gwneud cais am y Grant Gofal Plant trwy lenwi ffurflen PTCCG1, y mae modd i chi ei lawrlwytho o'r wefan sef **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu gallwch gysylltu â'ch awdurdod lleol er mwyn cael copi papur.

Mae'r adran hon yn esbonio sut a phryd y bydd modd i chi gael y ffurflen gais, yr hyn y bydd angen i chi ei wneud er mwyn cadarnhau eich bod yn dilyn eich cwrs, ac i ble y dylech anfon eich ffurflen ar ôl i chi ei llenwi.

Cam 1
Bydd modd i chi lawrlwytho copi o ffurflenni cais PTG1 a PTCCG1 a'r nodiadau sy'n cyd-fynd â nhw trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ffonio ein llinell gymorth ar 0845 602 8845.

Cam 2
Ar ôl i chi lenwi'ch ffurflen gais, dylech ei rhoi i'ch prifysgol neu goleg er mwyn iddynt allu:

- cadarnhau eich bod yn fyfyriwr;
- cyfrifo dwyster eich cwrs; a
- nodi'r ffioedd y byddant yn eu codi am eich cwrs.

Os ydych yn fyfyriwr newydd, bydd eich prifysgol neu goleg yn llenwi eu rhan nhw o'r ffurflen ar ôl i chi gwblhau pythefnos gyntaf y cwrs. Os ydych yn fyfyriwr sy'n parhau i ddilyn cwrs, bydd eich coleg yn llenwi ei ran ef ar ôl i chi gofrestru i astudio ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11.

Ar ôl i'ch prifysgol neu goleg lenwi eu rhan nhw, bydd yn dychwelyd y ffurflen atoch. Yna, dylech ddychwelyd y ffurflen i'ch awdurdod lleol.

Dylech sicrhau eich bod yn dychwelyd eich cais cyn pen chwe mis o ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd eich cwrs.

Bydd eich awdurdod lleol yn eich hysbysu o'r dyddiadau y bydd angen i chi ddychwelyd eich ffurflenni gofal plant PTCCG1 a PTCCG2 er mwyn atal unrhyw oedi gyda'ch taliadau gofal plant.

Cam 3
Bydd eich awdurdod lleol yn ysgrifennu atoch gan eich hysbysu a ydych yn gymwys i gael help ariannol i dalu eich ffioedd dysgu, costau eich cwrs a/neu grantiau dibynyddion.

Telir eich Grant Ffioedd i'ch prifysgol neu goleg yn uniongyrchol, a thelir eich Grant Cwrs neu grantiau dibynyddion i mewn i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol.

Myfyrwyr sy'n astudio gyda'r Brifysgol Agored (OU)
Os ydych yn astudio gydag OU, dylech wneud cais uniongyrchol i'r brifysgol am y Grant Ffioedd a'r Grant Cwrs. Mae gan y Brifysgol Agored ei ffurflen gais ei hun, a dylech lenwi hon yn hytrach na ffurflen PTG1. Os ydych yn dymuno astudio gyda'r Brifysgol Agored ac os bydd angen i chi gael unrhyw wybodaeth am gymorth ariannol, dylech gysylltu â'i thîm Cymorth Ariannol trwy anfon e-bost at: **general-enquiries@open.ac.uk** neu ffonio 01908 653 411.

Rhaid i chi ein hysbysu ni neu'ch awdurdod lleol, neu'r Brifysgol Agored pan fo hynny'n berthnasol, am unrhyw newid o ran eich amgylchiadau bob amser (er enghraifft, os byddwch yn penderfynu newid cwrs neu adael eich cwrs, neu os bydd eich costau gofal plant yn newid).

6 Beth fydd yn digwydd os byddaf wedi cael benthyciad i fyfyrwyr yn y gorffennol?

Crynodeb

Yn 2004, disodlwyd benthyciadau ar gyfer astudio rhan-amser gan y Grant Ffioedd a'r Grant Cwrs. Os cawsoch fenthyciad yn gynharach yn ystod eich cwrs, bydd yr adran hon yn cynnig gwybodaeth ynghylch:

- pryd y bydd yn rhaid i chi ddechrau ad-dalu unrhyw fenthyciadau i fyfyrwyr;
- sut y byddwn yn cyfrifo'r llog ar eich benthyciad;
- beth fydd swm eich ad-daliadau bob mis; a
- sut y cesglir unrhyw daliadau.

Pryd fydd yn rhaid i mi ddechrau ad-dalu?

Dim ond ar ôl i chi adael eich cwrs a phan fydd yr hyn y byddwch yn ei ennill yn uwch na swm penodol, y bydd yn rhaid i chi ad-dalu benthyciadau. Caiff y broses ad-dalu ei seilio ar enillion yn unig, ac nid ar y swm sy'n ddyledus. Os bydd eich enillion yn stopio neu os byddant yn gostwng dan £15,000, bydd eich ad-daliadau yn stopio yn awtomatig hefyd. Dim ond ar ôl i'ch enillion godi uwchben £15,000 y byddwch yn dechrau eu had-dalu unwaith eto.

Fel arfer, bydd yr ad-daliadau yn cychwyn ym mis Ebrill ar ôl i chi raddio neu adael eich cwrs. Felly os byddwch yn graddio ym mis Mai 2011, bydd eich ad-daliadau yn cychwyn ym mis Ebrill 2012.

Faint fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?

Dim ond pan fydd eich incwm blynyddol gros yn uwch na £15,000 neu'r swm misol (£1,250) neu wythnosol (£288) cyfatebol y byddwch yn dechrau ad-dalu'r benthyciad. Bydd yn rhaid i chi ad-dalu 9% o'r hyn y byddwch yn ei ennill dros y swm hwn. Os byddwch yn ennill llai na £15,000, ni fyddwch yn talu unrhyw beth.

Mae'r tabl isod yn dangos yr ad-daliadau misol y byddai angen i chi eu gwneud. Edrychwch ar yr enghreifftiau hyn er mwyn gweld sut y gallai hyn weithio i chi.

Incwm bob blwyddyn cyn treth	**Ad-daliadau**	
	Ad-daliad misol	**Ad-daliad fel canran o'ch incwm**
Hyd at £15,000	0	0
£16,000	£7	0.6%
£17,000	£15	1.1%
£18,000	£22	1.5%
£19,000	£30	1.9%
£20,000	£37	2.3%
£21,000	£45	2.6%
£22,000	£52	2.9%
£23,000	£60	3.1%
£24,000	£67	3.4%
£25,000	£75	3.6%

6 Beth fydd yn digwydd os byddaf wedi cael benthyciad i fyfyrwyr yn y gorffennol?

Sut y cesglir ad-daliadau?

Mae ad-dalu yn broses syml. Bydd eich cyflogwr yn cymryd eich taliadau o'ch cyflog yn uniongyrchol ac yn eu trosglwyddo i Gyllid a Thollau EM (CATHEM), a fydd yn eu trosglwyddo i ni.

Os ydych yn hunangyflogedig, bydd Cyllid a Thollau EM yn casglu'r ad-daliadau trwy gyfrwng y system hunanasesu treth.

Yn ogystal, bydd modd i chi wneud ad-daliadau gwirfoddol ychwanegol ar unrhyw adeg. Trowch at **www.studentloanrepayment.co.uk** am ragor o wybodaeth ynghylch sut i wneud ad-daliadau.

Mae'r Llywodraeth yn darparu cymhorthdal ar gyfer eich benthyciad i fyfyrwyr a'r llog a fydd yn cael ei godi arnoch. Nid yw benthyciad yr un fath â benthyciad masnachol gan fanc neu gymdeithas adeiladu er enghraifft, sy'n codi cyfradd llog llawer yn uwch. Caiff y gyfradd llog ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr ei hail-gyfrifo unwaith y flwyddyn a'i neilltuo i'ch benthyciad o 1 Medi bob blwyddyn. Cyhoeddir y cyfraddau llog newydd yn y wasg genedlaethol ac yn **www.studentloanrepayment.co.uk/interest**.

Beth os byddaf yn mynd i wlad dramor?

Os byddwch mewn gwlad dramor ac os na fydd y system dreth yn y DU yn berthnasol i chi, byddwch yn talu ad-daliadau i ni yn uniongyrchol. Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â ni cyn i chi adael y DU, gan roi cymaint o rybudd ag y bo modd i ni.

Pryd fydd fy menthyciad yn cael ei ganslo?

Byddwn yn dileu neu'n canslo eich benthyciadau:

- os bydd unrhyw ran o'ch benthyciad yn ddyledus o hyd ar ôl 25 o flynyddoedd;
- os byddwch yn mynd yn anabl yn barhaol ac ni fydd modd i chi weithio o ganlyniad i hynny; neu
- os byddwch yn marw.

Rhagor o wybodaeth

Gallwch weld rhagor o fanylion ynghylch ad-dalu'ch benthyciadau trwy droi at **www.studentloanrepayment.co.uk** neu trwy ddarllen 'Benthyciadau i Fyfyrwyr: Canllaw i'r Amodau a'r Telerau' sydd ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

7 Cwynion ac apeliadau

Cwynion

Byddwn yn ceisio cymryd y camau cywir y tro cyntaf bob amser. Fodd bynnag, mae pethau'n gallu mynd o chwith weithiau. Mae cwyn yn ymwneud â sefyllfa pan na fyddwch yn fodlon gyda'n cynhyrchion neu'n gwasanaethau, ac rydych yn dymuno i ni ddatrys y broblem. Nid yw cwyn yn cyfateb ag apêl yn erbyn ein penderfyniad ynghylch a ydych yn gymwys i gael help ariannol neu beidio. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cynnwys nifer o sefydliadau, y mae gan bob un ohonynt rôl benodol o fewn y system. Os na fyddwch yn fodlon gyda'r gwasanaeth y byddwch yn ei gael, mae modd i chi gwyno trwy gyfrwng gweithdrefn gwyno y sefydliad;

- **Yr Awdurdod Lleol**
  Rôl eich awdurdod lleol yw asesu ceisiadau am gymorth gan fyfyrwyr sy'n dymuno manteisio ar grantiau a benthyciadau Addysg Uwch, a gwneud penderfyniadau yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol.

- **Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr**
  Prif rôl y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yw darparu gwasanaethau gweithredol er mwyn talu (ac ad-dalu) grantiau a benthyciadau. Gallwch gysylltu ag ef yn:
  Customer Assistance Team
  Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyf (SLC)
  100 Bothwell Street
  Glasgow G2 7JD.
  E-bost: customer_complaints@slc.co.uk
  Gallwch ffonio'r adran y gwnaethoch ddelio â hi ddiwethaf yn SLC gan ofyn iddynt gofnodi cwyn dros y ffon. Dylech ddyfynnu eich cyfeirnod cwsmer ym mhob gohebiaeth.

- **Llywodraeth Cynulliad Cymru**
  Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yw pennu cynnwys polisi cymorth i fyfyrwyr, arweiniad a llenyddiaeth. Gallwch gysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:
  Yr Uned Gwynion
  Llywodraeth Cynulliad Cymru
  Adeiladau'r Goron
  Parc Cathays
  Caerdydd CF10 3NQ
  Ffôn: 029 2080 1378
  E-bost: complaints@wales.gsi.gov.uk
  http://wales.gov.uk/contact_us/complaints1/?lang=cy

- **Os byddwch yn anfodlon o hyd**
  Os ydych wedi bod trwy system gwyno y sefydliad dan sylw ac os ydych yn anfodlon o hyd, efallai y bydd modd i chi fanteisio ar adolygiad annibynnol o'ch cwyn, neu fe allech gyfeirio'ch achos at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn iddo ei ystyried.

  Dylai deunydd cyhoeddusrwydd y sefydliad ynghylch ei system gwyno ddisgrifio hyn, gan esbonio sut i gysylltu â'r unigolyn neu'r sefydliad hwnnw. Os nad yw'n nodi hyn, dylech ofyn i'r sefydliad yr hyn y dylech ei wneud. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i'r gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru (er enghraifft, awdurdodau lleol). Os ydych o'r farn eich bod wedi dioddef o ganlyniad i gamweinyddu neu os bydd gwasanaeth wedi methu mewn cysylltiad â'ch cais neu'ch asesiad am Gyllid i Fyfyrwyr (heb gynnwys y gwasanaeth sy'n ymwneud â chasglu ac ad-dalu benthyciadau), bydd gennych yr hawl i gyfeirio'ch cwyn yn uniongyrchol at:
  Ombwdsmon Gwasanaethau
  Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae,
  Pencoed CF35 5LJ
  Ffôn: 01656 641 150
  Ffacs: 01656 641 199
  www.ombudsman-wales.org.uk
  (Fel arfer, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn disgwyl bod yr achwynydd wedi mynd trwy weithdrefnau mewnol y sefydliad(au) dan sylw cyn y bydd ef yn ymchwilio i achos.)
  - Yr Ombwdsmon Seneddol (ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth ganolog, er enghraifft, yr Adran dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau o ran casglu ac ad-dalu benthyciadau);
  - Aseswr y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr; a'r
  - Dyfarnwr (ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan Gyllid y Wlad, a fydd yn ymwneud â chasglu ad-daliadau'ch benthyciad ar ôl i chi orffen astudio).

7 Cwynion ac apeliadau

Apeliadau

Mae apêl yn gais ffurfiol i adolygu ein penderfyniad ynghylch a ydych yn gymwys i gael help ariannol. Dylai apêl ymwneud â phenderfyniadau neu gamau gweithredu wedi'u seilio ar y ffordd yr ydym yn dehongli'r gyfraith neu reoliadau (er enghraifft, ynghylch a ydych yn gymwys i gael cyllid i fyfyrwyr neu faint o gyllid yr ydych yn gymwys i'w gael). Ym mhob achos arall, dylech ddilyn y broses gwyno. Cyn cofrestru apêl, dylech sicrhau hefyd eich bod wedi hysbysu'r sefydliad dan sylw nad ydych yn fodlon â'i benderfyniad. Yn ogystal, dylech ofyn iddo esbonio sut y gwnaeth ei benderfyniad. Efallai y bydd hyn yn helpu i ddatrys y broblem heb i chi orfod cymryd unrhyw gamau pellach.

Bydd y sefydliad yr ydych yn delio ag ef yn gallu rhoi gwybodaeth i chi ynghylch sut i apelio.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn rhaid i chi ystyried defnyddio'r system gyfreithiol (mynd gerbron llys sirol neu wneud cais am adolygiad barnwrol yn yr uchel lys) os, er enghraifft, bydd angen i chi symud yr apêl ymlaen i gam arall. Os ydych yn ystyried gwneud hyn, dylech sicrhau cyngor cyfreithiol annibynnol yn gyntaf, er enghraifft, gan gyfreithiwr, canolfan gynghori gyfreithiol, y ganolfan gynghori yn eich coleg neu'ch undeb myfyrwyr, neu Ganolfan Gynghori.

8 Sut i gael gwybod mwy

Cyhoeddiadau defnyddiol

Mae modd i chi gael copïau ychwanegol o'r canllaw hwn a'r canllawiau cyllid i fyfyrwyr canlynol, trwy:

- ffonio ein Llinell Gyhoeddiadau ar 0800 731 9133 (ffôn testun 0800 328 8988); neu
- droi at wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru sef **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** a lawrlwytho copi.

Yn ogystal, gallwch gael copïau Braille, copïau sain a chopïau print mawr.

1 **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** – Dylech droi at y canllaw 'Pontio'r Bwlch: canllaw i'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs) mewn addysg uwch' (cyfeirnod SFW/BTGB/V10)

2 **Help i fyfyrwyr y mae ganddynt blant neu oedolion dibynnol** – Dylech droi at y canllaw 'Grant Gofal Plant a chymorth arall ar gyfer myfyrwyr addysg uwch amser llawn sy'n rhieni' (cyfeirnod SFW/CCGB/V10)

3 **Gwybodaeth am fenthyciadau i fyfyrwyr** – Dylech droi at y canllaw 'Benthyciadau i Fyfyrwyr – canllaw i'r amodau a'r telerau' (cyfeirnod SFW/SLTC/V10)

4 **Gwybodaeth am help ar gyfer myfyrwyr amser llawn** – Dylech droi at y canllaw 'Canllaw i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch amser llawn' (cyfeirnod SFW/FSHE/V10)

Cysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru

Gallwch ffonio Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845 rhwng 8yb ac 8yh o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 9yb a 5.30yh ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

Ffynonellau gwybodaeth eraill ynghylch ariannu

Scholarship Search UK
Mae'n darparu gwybodaeth am ffynonellau ariannol eraill ar gyfer israddedigion. Gwefan: **www.scholarship-search.org.uk**

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM)
Gallwch gael rhagor o wybodaeth trwy droi at wefan UCM sef **www.nusonline.co.uk**.

Educational Grants Advisory Service (EGAS)
Mae Educational Grants Advisory Service yn asiantaeth gynghori annibynnol i bobl sy'n dymuno cael arian ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch. Mae'n ymwneud â helpu myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael arian statudol gan y Llywodraeth yn bennaf.

Ni all EGAS dderbyn ceisiadau gan fyfyrwyr ôl-raddedig.

Yn ogystal, gall EGAS gynnig cyngor manwl ynghylch y system ariannu i'r rhai sy'n ystyried astudio cwrs addysg bellach neu addysg uwch.

Gallwch ffonio'r llinell wybodaeth ar 020 7254 6251 (dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau rhwng 2yb a 4yh) neu droi at ei wefan sef **www.family-action.org.uk/1037**.

Gallwch gael copi o'r canllaw hwn trwy ffonio llinell gyhoeddiadau Cyllid i Fyfyrwyr ar 0800 731 9133, gan ddyfynnu cyfeirnod SFW/FSPT/V10.

Mae gwasanaeth ffôn testun rhad ac am ddim ar gael ar 0800 328 8988.

Yn ogystal, gallwch gael copïau Braille, copïau sain a chopïau print mawr o'r canllaw hwn trwy ffonio'r llinell wybodaeth Rhadffôn.

© Hawlfraint y Goron Mai 2010

Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae modd atgynhyrchu darnau o'r ddogfen hon ar ddibenion ymchwil anfasnachol, addysg neu hyfforddiant, ar yr amod eich bod yn cydnabod y ffynhonnell. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, a fyddech gystal â chysylltu ag
HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk

ISBN: 978-0-7504-5600-5